Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Arolwg cyn-arolygiad: disgyblion (cynradd)

Rho dy farn i ni am dy ysgol.

Darllena bob brawddeg a thicio'r blwch sy'n disgrifio sut rwyt ti'n teimlo.. Does dim unrhyw atebion cywir nac anghywir. Ar gyfer rhai cwestiynau, byddi di'n cael cyfle i ddweud pam rwyt ti wedi dewis yr ateb hwnnw, os wyt ti eisiau.

Meddylia am dy brofiadau dy hun ac nid am brofiad dy ffrindiau. Bydd yn onest os gweli di'n dda.

Mae dy farn yn bwysig. Byddwn ni'n darllen dy atebion ac yn eu defnyddio i ddysgu mwy am yr ysgol. Efallai y byddwn ni hefyd yn defnyddio'r arolygon hyn i'n helpu i ddeall beth yw barn disgyblion am ysgolion ar draws Cymru.

**Fydd dim enwau yn yr arolwg yma.** Fyddwn ni ddim yn gofyn i ti roi dy enw. Mae hyn yn golygu bod dy atebion i gyd yn gyfrinachol.

- Bydd arolygwyr Estyn yn darllen dy atebion
- Fydd arolygwyr Estyn byth yn dweud wrth neb yn dy ysgol na neb arall y tu allan i Estyn beth rwyt ti'n ei ddweud

Yr unig amser y gallen ni rannu gwybodaeth â phobl eraill yw os ydyn ni'n poeni am ddiogelwch disgyblion.

**1. Grŵp blwyddyn ***

- ☐ Blwyddyn 3
- ☐ Blwyddyn 4
- ☐ Blwyddyn 5
- ☐ Blwyddyn 6

**2. Rydw i'n mwynhau'r ysgol**

- ☐ Trwy'r amser
- ☐ Rhan fwyaf o'r amser
- ☐ Peth o'r amser
- ☐ Bron byth
- ☐ Byth

**3. Rydw i'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol**

- ☐ Trwy'r amser
- ☐ Rhan fwyaf o'r amser
- ☐ Peth o'r amser
- ☐ Bron byth
- ☐ Byth

Hoffet ti ddweud mwy wrthyn ni?

**4. Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn fy nosbarth**

- ☐ Trwy'r amser
- ☐ Rhan fwyaf o'r amser
- ☐ Peth o'r amser
- ☐ Bron byth
- ☐ Byth

**5. Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amser egwyl ac amser cinio**

- [ ] Trwy'r amser
- [ ] Rhan fwyaf o'r amser
- [ ] Peth o'r amser
- [ ] Bron byth
- [ ] Byth

Defnyddia’r lle isod os hoffet ti ddweud mwy wrthyn ni

**6. Wyt ti’n teimlo dy fod di’n cael dy fwlio yn yr ysgol?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

Defnyddia’r lle isod os hoffet ti ddweud mwy wrthyn ni am y ffordd mae staff yn delio â hyn. Sylwa y bydd unrhyw beth rwyt ti’n ei ddweud yn cael ei rannu â phobl eraill os oes angen. Dydy arolygwyr ddim yn gallu ymchwilio i faterion unigol; yr ysgol fynd yn gorfod delio â'r rhain.

**7. Rydw i'n meddwl bod y gwaith yn y mwyafrif o wersi...**

- [ ] Tua'r lefel gywir o anhawster
- [ ] Yn rhy hawdd
- [ ] Yn rhy galed

Hoffet ti ddweud mwy wrthyn ni?

**8. Rydw i'n credu bod fy ngwersi'n ddiddorol**

- [ ] Trwy'r amser
- [ ] Rhan fwyaf o'r amser
- [ ] Peth o'r amser
- [ ] Bron byth
- [ ] Byth

**9. Mae fy ysgol yn fy helpu i drin pawb yn deg**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

Dywed fwy wrthyn ni os hoffet ti wneud hynny

**10. Rydw i'n cael fy annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol y tu allan i wersi, fel clybiau, chwaraeon, cerddoriaeth neu gelf**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

Os hoffet ti, rho enghreifftiau i ni

**11. Mae staff yn gofyn am ein barn am yr ysgol**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

**12. Mae arweinwyr ysgol yn gwrando ar ein syniadau ac weithiau'n newid pethau pan fyddwn ni'n gofyn amdanyn nhw**

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

**13. Fyddet ti'n argymell yr ysgol yma i rywun arall?**

- [ ] Byddwn
- [ ] Na fyddwn

Hoffet ti ddweud mwy wrthyn ni?

**14. Defnyddia'r lle isod i ddweud unrhyw beth arall wrthyn ni am dy ysgol**

**Os wyt ti'n teimlo nad wyt ti'n ddiogel yn yr ysgol, siarada ag oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo neu rannu dy bryderon gyda ni ar diogelu@estyn.gov.wales neu ffonio ni ar 02920446446**

**Rydyn ni'n cadw dy atebion yn ddiogel ar systemau cyfrifiadurol Estyn. Galli di gael gwybod mwy am sut rydyn ni'n cadw ac yn defnyddio dy wybodaeth bersonol trwy edrych ar ein hysbysiad preifatrwydd:**
**Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)**